Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 30 Ebrill 2014 |
| Ein cyf: | HVT/2125/mjb |
| Tudalen: | 1 o 2 |

Annwyl Darren,

## CYLLID IECHYD 2012-13 A THU HWNT

Roedd llythyr y clerc, dyddiedig 16 Ebrill, yn gofyn am gyngor gennyf ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ynghylch *Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt*. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol ac mae'n derbyn yn llawn bob un o argymhellion y Pwyllgor.

Yn gyffredinol, rwyf o'r farn bod ymateb Llywodraeth Cymru yn foddhaol. Mae llawer o'r ymatebion yn nodi bwriadau Llywodraeth Cymru mewn meysydd lle mae camau eisoes yn cael eu cymryd, megis y gwaith o gymeradwyo a gweithredu cynlluniau tair blynedd cyrff y GIG. Rwyf wedi sôn o'r blaen wrth y Pwyllgor fy mod wrthi'n ymgymryd â gwaith pellach i archwilio perfformiad a chyllid iechyd drwy gydol 2013-14, ac rwy'n bwriadu cyhoeddi fy nghanfyddiadau ddechrau hydref 2014. Bydd y gwaith hwnnw'n ystyried llawer o'r materion a nodir yn argymhellion y Pwyllgor. Os bydd fy ngwaith yn datgelu pryderon ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru, byddaf yn tynnu sylw at y pryderon hynny yn yr adroddiad.

Ceir un maes lle teimlaf nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ddigonol i un o argymhellion y Pwyllgor. Yn ei argymhelliad olaf, roedd y Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu'r costau sy'n gysylltiedig â diogelu cyflogau yn y GIG yng Nghymru. Yr hyn a ddeallaf i, o ddarllen yr argymhelliad, yw bod y Pwyllgor am i Lywodraeth Cymru roi ffigur neu ffigurau iddo. Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu disgrifiad o'r sefyllfa o ran trafodaethau rhwng cyflogwyr y GIG a'r undebau llafur. Er bod yr ymateb yn ddefnyddiol o safbwynt darparu cyd-destun ar gyfer y sefyllfa bresennol, nid yw, yn fy marn i, yn rhoi'r wybodaeth yr oedd y Pwyllgor am ei chael am gostau diogelu cyflogau.

Hwyrach yr hoffai'r Pwyllgor ysgrifennu at y Swyddog Cyfrifyddu i ofyn unwaith eto am y wybodaeth y mae'n awyddus i'w chael am gostau diogelu cyflogau. Fodd bynnag, o gofio y byddaf i'n ystyried arbedion sy'n ymwneud â'r gweithlu yn rhan o'm hadolygiad i o berfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau yn 2013-14, gallwn i roi'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor yn fy adroddiad.

Yr eiddoch yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**